Gair Bach Bethlehem 54

Rhifyn hyd oedfa olaf 2025

www.bethlehem.cymru [Hefyd ar BlueSky @tycwrddbethlehem.bsky.social Gwaelod-y-garth]

Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Yr olygfa ar derfyn cyflwyniad Nadolig aelodau'r Ysgol Sul a'r cyn-aelodau hŷn, ar Ragfyr 21. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys sawl llun o'r cynhyrchiad, ynghyd â lluniau o ddigwyddiadau eraill y misoedd aeth heibio.

Trist gorfod cofnodi i ni golli un o'n haelodau bywiocaf, sef Eirlys Davies, Danescourt ar Ragfyr 5ed. Roedd hi'n weithgar ym Methlehem hyd ei wythnos olaf. Nid cyd-ddigwyddiad yw fod sawl llun ohoni yn y rhifyn hwn mewn cyfarfodydd y bu'n eu mynychu a'u cefnogi. Rydyn ni'n cydymdeimlo â Cerith â'r teulu, Bryn, Rhys a Rhian, yn eu colled. Bydd yr angladd ar Ionawr 5ed, 2026, yn yr Amlosgfa a chawn deyrnged lawnach iddi yn ein rhifyn nesaf.

YN Y RHIFYN HWN:

Gweithgareddau'r cyfnod hyd at oedfa olaf y flwyddyn

Newyddion Bethlehem

Oedfaon diweddar

Llawn Lluniau!

Erthyglau a cherddi

.a'r Bardd, y Cap a'r Capel!

Neges Delwyn

Gair Bach i'r Gair Bach

Do, fe aeth blwyddyn arall heibio, a dyma ni ar drothwy 2026! Ar lwyfan y byd bu'n flwyddyn o ryfela ac erchyllterau, gyda duw rhyfel Mawrth yn arglwyddiaethu a duw dialedd yr Hen Destament yn rhy amlwg ei ddylanwad. Ein gobaith; a'n gweddi bob un dwi'n siŵr, yw y bydd geiriau Tywysog Tangnefedd y Testament Newydd yn cael cyfle i arwain y ffordd yn y flwyddyn sydd i ddod.

Yn nes adre, fe hoffwn i ddweud gair bach yn y Gair Bach, a'r gair bach yna yw - diolch. Diolch i chi aelodau teulu Bethlehem am eich cefnogaeth a'ch anogaeth, nid yn unig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond dros y blynyddoedd diwethaf. Deng mlynedd yn ôl yn 2016 fe ddechreuais i fel arweinydd yn eich plith, a ry'm ni wedi bod yn cyd-gerdded ers hynny. Felly, gyd bererinion Tŷ Cwrdd Bethlehem, ar ddiwedd '25, ac ar drothwy '26, un gair.

Gair bach. Gair Mawr. **Diolch**… a hynny o'r galon.

Delwyn.

Suliau Ionawr 2026

Ionawr 4 - Oedfa Gymun
dan ofal Delwyn Sion
Ionawr 11 - Plygain
(am 5:00 p.m.)

Ionawr 18 - Oedfa
dan ofal y Parchedig Robin Wyn Samuel
Ionawr 25 - Oedfa
dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones

Un llun o wefan "Sgwrs Dan y Lloer" a dau lun o wefan Pobol y Cwm. Does dim angen eglurhad, mae'r wynebau'n rhai digon cyfarwydd i ni yma ym Methlehem. Digon yw dweud i'r ddwy raglen gael eu gwerthfawrogi gan wylwyr S4C dros y Nadolig. Os bu i chi eu colli – yna holwch Bethan neu Delwyn!

OEDFA BORE'R NADOLIG 2025

Fel sydd bellach yn arferol ar fore'r Nadolig, roedd cynulleidfa niferus yn yr oedfa fer am 10.00 o'r gloch. Diolch i Rhodri am drefnu ac i bawb fu'n cymryd rhan. Fel yr eglurodd Rhodri roedd yna ddolen gyswllt glos rhwng y darllenwyr eleni â'r bwlch ddaeth i'w rhengoedd ychydig cyn y Nadolig pan gollwyd Eirlys Davies o'n plith.



((isod) Cynulleidfa bore'r Nadolig (llun cyfansawdd!)

Adre' dros 'Dolig

Y Bardd, y Cap a'r Capel

Rhodri-Gwynn Jones

Dwi'n siŵr fod pawb a fu ym Methlehem ar nos Sul y 7fed o Ragfyr wedi cael boddhad a mwynhad yng nghwmni aelodau Côr Ifor Bach wrth iddyn nhw gyflwyno eu sioe "Adre' Dros 'Dolig" i ni bryd hynny.
Cawsom wledd o ganu, a braf oedd gweld cyfansoddwr y gerddoriaeth (sef Eilir) ac awdur y geiriau (Grahame Davies) yn bresennol yn y cyflwyniad. (Lluniau yn y rhifyn hwn)

Y noson ganlynol daeth neges - "eiddo coll?" – oddi wrth Grahame yn holi tybed a oedd yna olwg o'i gap yn y Capel yn rhywle – fe anfonodd lun o'i hun yn gwisgo'r cap i fod o gymorth i'w adnabod.
Gwyddwn yn fras lle 'roedd Grahame yn eistedd yn ystod y perfformiad.
Gwyddwn, yn ogystal, bod ymarferion a chyflwyniad Nadolig Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth yn cymryd lle yn y Capel yn ystod yr wythnos.
Tybed a fyddai'r cap yn dal yno?
Na, 'roedd arwydd ar y sedd honno, a'r rhai cyfagos, yn dynodi lle cadw ar gyfer plant y gwahanol ddosbarthiadau oedd yn cymryd rhan yng nghyflwyniad yr ysgol.
Chwilota yma ac acw i weld a oedd y cap colledig ar sedd gyfagos neu yn y set fawr – dim arlliw yn unman.
'Roedd peth deunydd wedi ei hel yn glwstwr a'i osod o fewn corlan yr organ, a dyma dyrchu yno, a dod o hyd i gap dieithr, y gwyddwn nad oedd yn eiddo i'r un o'r organyddion.

Tynnu llun ohono, a'i anfon at y perchennog tybiedig.
Cael cadarnhad mai hwn yn wir oedd y cap colledig, ond sut oedd cael y perchennog a'r cap yn ôl at ei gilydd tybed, a Grahame yn byw yn Aberhonddu?
Trwy lwc daeth neges yn ôl yn dweud ei fod yn gweithio yng Nghaerdydd ar y dydd lau canlynol, ac y byddai'n barod i'w bigo i fyny ar ei ffordd adref y noson honno.
Iawn, ond 'roedd cyngerdd Nadolig yn Ysgol Treganna bryd hynny, ac fel pob Taid da byddai disgwyl i mi a Mamgu fod yn bresennol yn cefnogi Wil, yr ŵyr, yn ei gyngerdd Nadolig olaf yno!
Cynnig iddo alw yn y tŷ gwag i 'nol y cap – rhoi cyfarwyddiadau manwl iddo ynglŷn a'r lleoliad (a llun), ac y byddai'r cap yn hongian ar fwlyn y drws mewnol tu fewn i'r cyntedd.
A dyna a wnaed – gan obeithio mai Grahame ac nid neb arall a fyddai'n galw acw ar hap a chymryd ffansi at y cap!
Dychwelyd adre'r noson honno a gweld fod y cap wedi diflannu o'r man y'i gosodwyd.
Derbyn cadarnhad y diwrnod wedyn bod y cap a'i berchennog yn eitem unwaith yn rhagor.
Falch fod y cap wedi cyrraedd "Adre' dros 'Dolig"!

Awydd gwneud adduned Blwyddyn Newydd? Beth am gyfrannu gair neu lun i'r

GAIR BACH

Mae yna le i bob cyfraniad!
Anfonwch rywbeth hoffech chi ei rannu â'ch cyd-aelodau at
tycnau@aol.col

Oedfa ola'r flwyddyn – gyda Dr Ian Hughes yn arwain y gwasanaeth ac yn cyfeilio! Diolch hefyd i Dylan Hughes am ei gyfraniad ar yr ochr dechnegol i'r oedfa.

Naw Llith a Charol

Rhagfyr 14

Unwaith eto eleni, daeth Côr CF1 atom i'r oedfa 'Naw llith a charol'. Mae'r oedfa ar Youtube: https://youtu.be/N3erpxjaHsk ... ac mae cerdd Rhys Powys i'w gweld yn i rhifyn hwn. (Ond roedd un wyneb cyfarwydd ar goll eleni - brysia wella wedi dy ddamwain, Delyth. A diolch am drefnu'r oedfa).









Y Ddrama Nadolig

‘Salon Harddwch Bethlehem’

Rhagfyr 21

Sgript gan Heulwen Jones oedd y cyflwyniad a denodd y sioe gast eang o blant yr Ysgol Sul a ieuenctid Bethlehem ynghyd. I ail-fyw’r sioe, dyma’r ddolen gyswllt: https://youtu.be/cFbp-lw-cdE
Diolch i bawb fu’n weithgar yn paratoi – boed ar eich aelwydydd ac ym Methlehem ei hunan. Fel gwelwch ymhlith y lluniau (sydd heb fod yn nhrefn eu hymddangosiad yn y cynhyrchiad) cyflwynwyd tusw o flodau i Heulwen am ei holl waith.

(parhad ar y dudalen nesaf)

Bethlehem yn gryno

NEWYDDION 1

Gan mai rhifyn sy'n ymddangos wedi'r Nadolig ydy'r Gair bach hwn, gobeithio i chi fwynhau dedwyddwch cyfnod yr ŵyl. Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb gael blwyddyn arbennig o hwylus o ran iechyd ac amgylchiadau a hyderwn y bydd y flwyddyn newydd yn un fwy dymunol i bawb. Dyma grynhoad o'r newyddion sydd efallai heb ddod i'ch clyw.

YR YSGOL SUL

(uchod) Rhai o aelodau iau yr Ysgol Sul ac *(isod)* yr aelodau aeddfetaf gydag Eifion Glyn.

(o'r chwith) Trystan, Betsan, Megan, Alys, Sara a Mabon.

BETHLEH-"EMMY"

Mae Bethlehem yn hawlio ychydig bach, bach ym muddugoliaeth y gyfres ddrama "***Lost Boys and Fairies"*** pan ddyfarnwyd gwobr fyd-enwog yr "Emmy" iddi yn Efrog Newydd yn ddiweddar. Ie, yma y ffilmiwyd rhai golygfeydd ar ei chyfer.

A braf oedd gweld awdur y gyfres, Daf James, yn ein plith yn ddiweddar. Llongyfarchiadau Daf!

PRIODAS

Llongyfarchiadau i Angharad King a Roman Hryniv ar eu priodas ym Methlehem. Gobeithio y bydd gennym lun yn ein rhifyn nesaf!

BABIS NEWYDD

Croeso mawr i fabanod a llongyfarchiadau i'r teuluoedd – gan gynnwys dwy nain ac un taid.

Mae Shân Osborne yn nain unwaith eto – y tro hwn i Greta. A stori gyffelyb sydd yna yn hanes Meira a Wynford Ellis Owen wedi i Winffi gyrraedd i ymestyn y teulu.

CÔR BETHLEHEM

Diolch i bawb o aelodau Bethlehem fu'n canu dan arweiniad Eilir yng Nghymanfa ail-lansio'r Stafell Fyw yn Nhabernacl Yr Ais. Hyd yma, yn anffodus, does ganddon ni ddim llun o'r achlysur. (Mae Arwel yn olrhain hanes cyfansoddi'r Emyn Heddwch yn y rhifyn hwn o'r Gair Bach.)

ANFONWN EIN COFION AT Y CANLYNOL

- Beti Williams, Radur, sydd newydd ddychwelyd o'r ysbyty.
- Ken Evans, Pentyrch, sydd mewn cartref gofal yng Nghaerffili.
- Delyth Evans, Y Barri, sydd wedi colli'i brawd.
- Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd, sydd anafu ei throed ond newydd fynychu oedfa Rhagfyr 28.

Ydyn ni wedi colli rhywbeth o'r rhifyn hwn o'r "GAIR BACH"? Os felly rhowch wybod.
Mae'r cyfranwyr yn gallu bod yn brin ambell dro. Anfonwch lun neu air neu ddau at Ifan ar
tycnau@aol.com / 07761826977

Bethlehem yn gryno

NEWYDDION 2

Dyma rai o'r oedfaon diweddar ym Methlehem (ond nid y cyfan). Mae sawl fideo o'r gwasanaethau i'w cael ar Youtube ac ar wefan Bethlehem, a hynny diolch i waith Heulwen a Wyn Jones. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar iddyn nhw am eu gwaith a'u harbenigedd. Hefyd mewn ambell lun mae'r aelodau ifanc sydd wedi ledio emyn y plant a hynny gyda graen. Diolch yn arbennig iddyn nhw i gyd.

Oedfa Gymun yn y Festri ddechrau Rhagfyr gyda Delwyn

Robin Samuel ac Esther


Robert Owen Griffiths a Nanw

Pegi Alys ac Alan Cooke

Jeff Williams

Delwyn a'r band

Yr oedfa Ddiolchgarwch dan ofal Heulwen

Cip arall ar ran o gynulleidfa'r oedfa Ddiolchgarwch

Gweithgareddau diweddar (1)

Nos Sul, Rhagfyr 7fed, roedden nhw'n ciwio tu fas i Fethlehem ar gyfer clywed Côr Ifor Bach yn cyflwyno amrywiaeth o weithiau yn yr hanner cyntaf ac yna "Adre Dros 'Dolig", y gerddoriaeth gan Eilir Owen Griffiths a'r geiriau gan Grahame Davies (chwith). Mae'r cyfan i'w gael unwaith eto ar Youtube, ar y ddolen hon:

https://youtu.be/jkhJGjUeJrk

Gweithgareddau diweddar (2)

Unwaith eto eleni. bu Marian Ifans yn cyflwyno'i syniadau am ddanteithion tymhorol. Y ddwy Eirlys Davies oedd yn agor y cyfarfod. Ychydig a wyddem ar y pryd mai hwn fyddai'r tro olaf i ni fwynhau cwmni a chyflwyniad Eirlys Davies, Danescourt. (dde).

(chwith) Y gynulleidfa'n barod am y danteithion ac isod, Delyth a Rhian, y ddwy fu'n gweini arnon ni.
Mae'r cyfarwyddiadau oedd Marian yn eu rhoi i'w cael isod ac ar y dudalen nesaf.

Danteithion Bach Nadoligaidd Marian 2025

Cnau Cymysg gyda Rhosmari
Taenwch amrywiaeth o gnau – brasil, Pecan, cyll, almwnd, walnut – ar sheet fetel, a'u rhostio – o dan y grill yn gynt – cadwch lygad arnynt!
Yn y cyfamser, torrwch y rhosmari yn fan iawn, gan ei ychwanegu at 2 llond llwy de o siwgr muscovado a'r un faint o halen cras.
Pwniwch y cyfan yn fân.
Rhowch gnapyn o fenyn mewn padell ffrio, ei doddi, gan ychwanegu'r halen a'r cnau wedi eu rhostio. Trowch y cyfan am funud neu ddwy.

Melwn, ham a chaws ar "Skewers"
Torrwch y melwn yn ddarnau bach, ynghyd â prosciutto a darnau o mozzarella.
Rhowch ychydig o fineg Balsamig drostynt.

Datys, caws a chnau
Dewiswch ddatys Medjool os yn bosib. Gwnewch hollt fach yn y datys, gan roi ychydig o dip caws glas i mewn ac ychwanegu almwn ar y top

(parhad ar y dudalen nesaf)

Teisen Dolig Hawdd – digon i 28

175g (6 owns) bricyll wedi eu torri yn fân
3 llwy fwrdd o frandi
175g (6 owns)menyn
175g (6 owns) siwgr brown meddal ysgafn
4 wy
175g (6 owns)blawd plaen
225g (8owns) cyrens
225g (8owns) raisins
225g (8 owns) ceirios – wedi eu chwarteru a'u golchi
Jam bricyll wedi ei gynhesu
500g (1lb 2 owns) paced eisin wedi ei rowlio yn barod
500g (1lb 2owns) past almwn
Mesurwch y bricyll i fowlen fach, tywalltwch y brandi drosodd a gadewch iddo fwydo, nes fod y brandi wedi diflannu.
Cynheswch y popty i 140 'fan'
Irwch a leiniwch dun 30cm wrth 20cm(12" wrth 8")
Curwch y menyn a'r siwgr, hyd nes ei fod yn olau
Ychwanegwch bopeth arall, gan ei gymysgu yn drwyadl
Taenwch yn y tun, a'i bobi am 1 – 1 1/4awr,neu hyd nes bod y sgiwer yn lân
Wedi i'r gacen oeri, brwsiwch hi gydag ychydig o jam bricyll wedi ei gynhesu.
Toliwch y past almwn yn ddarn hirsgwar a'i daenu dros y gacen. gan daenu ychydig mwy o jam dros y past almwn.

Taenwch haen o eisin parod ar ben y past.
Addurnwch os ydych eisiau.
Torrwch yn ddarnau bach i'w gweini.

Mins peis Frangipane

Toes melys
4 owns Menyn
4 owns siwgr Caster
2 wy mawr
4 owns almwn mân
1 llwy fwrdd Blawd Plaen
½ llwy de rhin almwn
Ar gyfer y top
Briwfwyd
Ychydig o almonau wedi eu hollti
Jam Bricyll
Sudd lemwn
Ar ôl oeri'r toes, rhowliwch un lled denau a thorri'n gylchoedd.
I wneud y frangipane, curwch y menyn a'r siwgr, gan ychwanegu'r wyau – peidiwch poeni os yw'n "curdlo".
Ychwanegwch yr almwn mâl, y blawd a'r rhin almwn.
Rhowch y toes ar waelod y tuniau bach, ychwanegu llond llwy de o friwfwyd gyda'r frangipane ar y top.
Ysgeintiwch ychydig o almonau ar y top – peidiwch a gor-lenwi'r tuniau
Pobwch ar wres 160 ffan am tua 15 i 17 munud
Rhowch y jam bricyll mewn sosban i doddi, ychwanegwch ychydig sudd lemwn i'w deneuo. Brwsiwch dros y tartenni tra maent yn gynnes.

Brownies Nutella a Baileys

150g menyn wedi ei doddi
300g Nutella
150g siwgr brown meddal ysgafn
3 wy canolig
50ml Baileys
1 llwy de fanila
50g powdwr coco
75g blawd plaen
Ae gyfer y "swirl" i'r gacen
100g caws hufennog llawn braster
25g siwgr Caster
25 blawd plaen
1 melynwy
50 ml Baileys
Twymwch y popty i 160 ffan
Irwch a leiniwch dun sgwar.Mewn bowlen ganolig, gan ddefnyddio chwisg, curwch y Nutella gyda'r siwgr, wyau, Baileys a'r fanila hyd nes ei fod yn llyfn. Ychwanegwch y coco, y blawd a'r siwgr a'i guro nes ei fod yn sgleinio.
Ar gyfer y "swirl" curwch y cynhwysion nes eu bod yn llyfn.
Rhowch "dollops"o'r swirl ar ben y cymysgwch brownies a'i droi yn araf i greu patrwm
Craswch am 35-40 munud, neu hyd bod y top yn teimlo'n sych a dim "wobble" pan chi'n ysgwyd y tun. Gadewch iddo oeri yn llwyr, cyn ei roi ar fwrdd a'i dorri yn sgwariau bach.

Pwdin coffi (i'w rewi yn barod i'r Dolig)

Paced o sbwnj treiffl
4 owns marg/menyn
4 owns caster
2 wy
Llond llwy bwdin o goffi mewn ½ cwpanaid o ddwr poeth – llanwch y cwpan gyda sherry neu rum tywyll.
Hufen Dwbwl mawr.
Holltwch y spwnjus. Chwipiwch y menyn, siwgr a'r wyau – peidiwch poeni os maent yn "curdlo".
Adeiladwch y pwdin, gyda haen o sbwng ar y gwaelod, traean o'r hylif coffi a rhywfaint o'r cymysgwch menyn, gan ail- adrodd yr haenau.
Gallwch ei lapio mewn ffoil yn yr oergell dros nos neu ei rewi.
Cyn ei weini, chwipiwch yr hufen a'i daenu dros y pwdin.
Addurnwch gyda chnau almwn wedi eu rhostio.

Marian Ifans

Gweithgareddau diweddar (3)

Un o'r "Rifleros" yn ein plith! Wrth i Colin Williams, Creigiau, adrodd hanes ei ymweliad â Phatagonia, datgelodd ei fod wedi cael ar ddeall fod ganddo'r hawl deuluol i gyd-deithio gyda'r "Rifleros" i ben y mynydd i ddathlu taith y fintai gyntaf un wnaeth gyrraedd Cwm Hyfryd 140 mlynedd yn ôl. Colin oedd siaradwr gwadd Cymdeithas Bethlehem ym mis Tachwedd.

Bu'r addurniadau ar ffenestri'r capel yn destun edmygedd dros yr wythnosau diwethaf. Roedden nhw'n gynnyrch cystadlu brwd fu un pnawn Sul. Isod (chwith), wele'r enillydd: Marged, gyda'r ddwy ddaeth yn gydradd ail, Menna a Rhian.

Vol. 50, No. 6 November-December 2025

Ninnau

The North American Welsh Newspaper
Papur Cymry Gogledd America
Incorporating Y DRYCH

A Stronger Future for the Welsh North American Association

Eilir Owen Griffiths with members of Welsh Heritage Week, some of whom travelled a great distance to attend.

Eilir Owen Griffiths Directs Delta Gymanfa

Ac i brofi fod gan Y Gair Bach ohebyddion rhyngwladol. Daeth nodyn i gadarnhau fod Eilir wedi bod yn arwain ambell gymanfa tu hwnt i Fethlehem!

Cymdeithas Bethlehem

Y Boi â'r Bocs

Mis Tachwedd

Cyfareddwyd pawb gan ddatgeliad Rhys Powys o gynnwys y "bocs". Roedd Rhys a'i chwaer, Betsan Powys, wedi profi'r dasg, un sydd mor gyfarwydd i sawl un, o geisio didoli deunyddiau wedi eu crynhoi gan eu teulu – ambell dro, heb unrhyw ragrybudd o'r cynnwys. Yma, ym Methlehem, roeddem yn gyfarwydd iawn â'n cyn fugail, y Parchedig Ddr. R Alun Evans a'i briod, Rhiannon. Felly, roedd datgeliad Rhys o gynnwys rhai o'r trysorau oedd wedi eu crynhoi ar eu haelwyd yn canu sawl cloch. Yn naturiol iawn, gan fod gweithgaredd y teulu yn rhai o ddiddordeb cenedlaethol, mae rhai eitemau wedi mynd i'r Llyfrgell Genedlaethol. Ond erys y trysorau teuluol a rhai o'r rhain gafodd sylw Rhys yn ei gyflwyniad.



Yn y 'bocs' canfu Rhys lythyrau ac eitemau ei daid o gyfnod y Rhyfel Mawr na chafodd eu trafod ar lafar wedi hynny, oherwydd yr erchyllterau. Roedd sawl eitem a chyfeiriad at ei daid, y Parchedig Robert Evans, fu'n aelod o'r uned Ambiwlans RAMC yn y cyfnod hwnnw. A hynod briodol oedd y cyfeiriadau hyn ar ddydd dathlu'r cadoediad ar Dachwedd 11 ac i Wyndham ***(ar y dde)*** ddarllen cerdd Hedd Wyn "Gwae fi fy myw..." ar ddechrau'r cyfarfod.





Roedd trysorau Alun a Rhiannon ei hunain yn naturiol yn rhai pur wahanol, gan gynnwys y perl o lythyr aeth at Rhys oddi wrth ei fam yn yr ysbyty ar enedigaeth Betsan. Cawsom hefyd ein hatgoffa o'r holl gyfrolau gyhoeddodd y Parchedig Ddr R Alun dros y degawdau a'r anrhydeddau ddaeth i'w ran.

Os bu ichi golli'r sgwrs hon, da deall bod Rhys a Betsan yn bwriadu cofnodi'r trysorau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Margaret oedd yn llywyddu'r cyfarfod, ac ar y diwedd gwnaeth ein hatgoffa byddai'r cyfarfod nesaf yn un Nadoligaidd ei naws, gyda Marian Ifans yn ein cymell i addurno a choginio.

Mae'r gerdd am 'Grwban y Nadolig' ddarllenodd Rhys yn y Naw Llith a Charol i'w gweld ar y dudalen nesaf.

Mynychwyr cyfarfod Tachwedd yn gwrando ar Rhys Powys a "Beth sydd yn y Bocs?"
(llun cyfansawdd)

Y gerdd o'r 'Naw Llith a Charol'

Crwban y Nadolig

Rhys Powys

Pan o'n i yn blentyn fe wyliwn gartŵn;
Nid un am rhyw lygod a chathod a chŵn,
Ond stori am grwban, a grwydrai o hyd
Heb gragen; heb gartref o fath yn y byd.
Rhyw lipryn bach ydoedd, yn llwyd fel y graig
A'i groen oedd yn "wrinkly", fel 'handbag' hen wraig.
Ei ben oedd fel neidr, a'i freichiau yn wan
Ond llwyddai i fynd ar ddwy droed i bob man.
Doedd ganddo ddim clustiau, 'mond dwy lygad wych
I weld ei elynion yn cuddio'n y gwrych.
Ni allai siarad; dwi'm yn cofio ei sŵn -
Nid crwban iawn ydoedd ond crwban cartŵn.
Oedd e'n ferch neu yn fachgen? Dwi'm yn gwybod ei ryw
Ond dwi'n cofio y teimlai bob profiad i'r byw…

Dolur oedd y deiliach y doi ar eu traws
A doedd cerdded ar gerrig ddim fymryn yn haws.
Pan oedd ei elynion am ei blagio â phoen
Fe daflent ryw halen i blygion ei groen
A hwnnw'n ei gosi a'i losgi fel fflam.
Pam dwi'n cofio ei stori? Wel, wn i ddim pam.
Pam cofio'r creadur a hanes mor ffôl
Am ryw 'grwban cartŵn' o flynyddoedd yn ôl?
A pham darllen amdano ar noson fel hon,
"Hosana!" "Haleliwia!" a'r dyrfa mor llon?

"Ni yma i ddathlu genedigaeth y Crist
Nid siarad am boendod rhyw grwban bach trist!
Bugeiliaid! Angylion! A hanes gwŷr doeth!
Nid cerddi am grwban - 'n enwedig un noeth!"

Ond cofiwch fod Iesu
'Di cyrraedd fel babi
Diniwed,
Yn dene,
I warchod rhai fel finne,
A falle fel chithe
Sy'n teimlo ar brydie -
Nid wastad - ond weithie,
Yn amrwd a gwan
Fel crwban
Di-gragen.

A phan fydd fy nghroen i yn brifo
Fe fydda i'n cofio…
Ac yn diolch amdano.

Yn dilyn Ail-agor Y Stafell Fyw

CEFNDIR YR "EMYN HEDDWCH"

Arwel Ellis Owen

"O Duw yr Hedd" ydy'r cyfuniad o gerddoriaeth gan Eric Jones i eiriau Emyn Heddwch fy nhad, y diweddar Barchedig Robert Owen. Hon oedd cyflwyniad Côr Bethlehem, yn y Gymanfa i dathlu ail agor Y Stafell Fyw, a dyma'r perfformiad cyhoeddus cyntaf o'r comisiwn newydd, ers Eisteddfod Pontypridd.

Ond mae mwy i'r cyfan na hynny...

Fe gyfansoddodd fy nhad y geiriau nôl yn chwedegau y ganrif ddiwethaf, pan oedd Rhyfel Fietnam ar ei waethaf a'r Brifwyl yn y Drenewydd wobrwyodd y penillion yn y gystadleuaeth Cyfansoddi Emyn. Yn Awst 1965, fe gyrhaeddodd y teulu Faes y Steddfod, i glywed y feirniadaeth, ar yr union ddiwrnod y cyhoeddodd yr Arlywydd Johnson, ei fod yn anfon rhagor o awyrennau rhyfel i geisio concro y Viet Cong. Hon oedd y rhyfel gyntaf i gael sylw dwys ffotograffwyr tebyg i'r Cymro Philip Jones Griffiths. Delweddau byw oedd yn dangos erchylltra y brwydro a'r effaith yr oedd yr ymosod ar bawb yn ddiwahân yn ei gael ar gymunedau a bywyd trigolion Fietnam. Emyn Heddwch fy nhad oedd ei gyfraniad unigryw o i'r brotest ryngwladol yn erbyn y rhyfel.

Côr Godre'r Aran recordiodd yr Emyn gyntaf, cyn ei chynnwys yn eu perfformiad yng nghastell Caernarfon, ar achlysur Arwisgo Tywysog Cymru yn 1969. Llwyddodd fy nhad I gael un o gadeiriau coch yr Arwisgo yn gydnabyddiaeth o'i gyfraniad i'r achlysur hwnnw. Pedwarawd R Alun Evans oedd y recordiad nesaf yn "Y Border Bach', a nhw, fel Tom Jones, arweinydd Côr Godre'r Aran, yn gosod y geiriau i alaw draddodiadol. Cyn hir daeth Golygyddion Caneuon Ffydd ar fy ngofyn i gael cynnwys yr Emyn yn rhifyn cyntaf y casgliad o emynau gyhoeddwyd ar droad y ganrif, ai gosod yn rhif 850.

Yr emyn dôn y mae rhan fwyaf o organyddion wedi ddewis i gyd-fynd ar geiriau ydi Melita. Rhaid cyfadde, er mai Melita oedd yr unig emyn dôn i mi chwarae, lawer tro yng gwasanaethau boreol Ysgol Dyffryn Nantlle, nid hon oedd y gerddoriaeth orau i eiriau fy nhad, yn nôl y teulu!

Felly pan ddaeth y cyfansoddwr Eric Jones ar fy ôl, yn dweud ei fod wedi derbyn comisiwn i ysgrifennu emyn dôn newydd, a'i fod yn dymuno gwneud hynny ar gyfer geiriau Emyn Heddwch fy nhad, hawdd iawn oedd dweud "Ia, Plîs."

Ond mae mwy i'r stori na hynny.

Pan ddarllenwch chi Emyn 850 yn Caneuon Ffydd, a darllen y geiriau enillodd y gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn yn 1965, fe welwch bod Golygyddion Caneuon Ffydd wedi newid dau air o'r penillion gwreiddiol.

Yr "*hwn a wnaethost dir a mor*", nid yr "hwn a greodd dir a *mor*", ac yna "*nwyd a dawn*" nid "*dysg a dawn*". Rydw i wedi methu a chael esboniad am y newid.

Wedyn yn "*O Dduw yr Hedd*" mae Eric Jones wedi anwybyddu y pennill olaf yn gyfan gwbl! Mae rhai yn honni mai y pedwerydd pennill ydi uchafbwynt yr emyn gyda'r ddwy linell olaf yn cloi neges fy nhad – "*Dduw nef, gwna'n holl benaethiaid ni yn dangnefeddwyr ynot ti*."

Dyna hefyd farn yr arlunydd, y diweddar Ogwyn Davies.
Flynyddoedd lawer yn ôl fe ofynnodd Ogwyn i mi a fyddai'n cael caniatâd i geisio cyflwyno neges emyn fy nghad drwy Gelf. Roedd Ogwyn ar y pryd yn arbrofi gyda gwahanol ddulliau o gyflwyno barddoniaeth. Ei arfer oedd paratoi gwely o bridd a dail, eu rhostio, ac yna torri siâp llythrennau yn y cymysgedd. Bu yn anfon llythrennau o bob siâp a lliw ataf gan ddweud ei fod yn dal i arbrofi.



Bu Ogwyn farw ac fe dybiais ei fod wedi methu a chwblhau y gwaith. Ond wrth i'w ferch, Nia Caron, a'i brawd glirio stiwdio eu tad dyma ddarganfod gwaith oedd yn dechrau gyda'r geiriau "Rho'n hael i ni dy nerth bob awr" sef pennill olaf emyn fy nhad. Mae y geiriau yn sôn am "droi'n baradwys ddaear lawr" a "thyfed blodau'n ôl ein traed" ac "erwau a fu'n feysydd gwaed". Hawdd deall pam bod Ogwyn wedi dewis y pennill, ac yntau'n arlunydd oedd yn arbenigo mewn defnyddio mwd a phlanhigion gwyllt yn sail i'w lythrennu.
Moeswers y stori ydi bod pawb yn gweld ac yn dehongli yr un darn o farddoniaeth mewn myrdd o wahanol ffyrdd. Dyna gyfoeth y byd creadigol.

Neges Brenda

Gair o ddiolch

Diolch am ofod yn y Gair Bach i ddiolch i gynulleidfa Bethlehem am fy nghynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Heb fy nheulu yn y ffydd fe fyddai pethe wedi bod llawer anoddach. Erbyn hyn mae blwyddyn wedi mynd heibio ers pan fu farw Cedric, yn dawel a di-ffws. Ond yn ôl ei fam, nid felly y daeth i'r byd. Babi anodd o achos anhwylder ar ei stumog. Cawsom bron i drigain mlynedd o fywyd priodasol. Daethom drwy amser da ac amser caled gyda'n gilydd. Roedd ei wên chwareus bob amser yn toddi nghalon.
Cawsom ein dau ein codi yn Y Bala. Cedric yn Annibynnwr a finne'n Fethodist. Ein dau yn Organyddion yn ein Capeli. Wrth gwrs doedd dim llawer o Gymraeg rhwng y ddau enwad! Ein dau yn tyfu fyny mewn teuluoedd Cristnogol a'r Capel yn ganolbwynt i bob dim. Mam a'n nhad ddim yn symud o'u milltir sgwâr, ond rhieni Cedric - ei fam o Aberaeron a'i dad o Dywyn, Meirionnydd. Rwy'n diolch bob dydd am fy magwraeth.
Bu Cedric a finne'n ffodus iawn i gael trafaelio'r byd trwy wyliau a gwaith. Rwy'n hynod falch o'r plant, Wendy a Jonathan a'u teuluoedd. Maen nhw a'r wyrion yn gofalu amdanaf ac rwy'n cael pleser mawr o fod yn eu cwmni. Rhaid diolch hefyd i ffrindiau a chymdogion di-flino.
Diolch i chi eto ym Methlehem, diolch hefyd am yr arweiniad gawn gan Delwyn. Rwy'n edrych ymlaen at gael ymuno â ffrindiau yn yr Oedfaon, Y Gymdeithas a'r Bore Coffi. Fel dwedodd Delwyn wrth y plant, 'nid yr adeilad sy'n bwysig ond y bobl sydd oddi mewn.'

Yn ddiffuant, ***Brenda (Jones, Radur)***

Yr Antidot i'n Tlodi Ysbrydol

Wynford Ellis Owen

Rydyn ni'n byw mewn gwlad sy'n gyfoethog o ran diwylliant, iaith a hanes - ac eto'n dawel bach yn cael ei dal yn nwylo tlodi ysbrydol dwfn. Nid tlodi sy'n ymddangos ar daflen gyllideb mohono. Mae'n datgelu ei hun yn hytrach yn ein hunigrwydd, ein blinder, ein caethiwed, a'n teimlad cynyddol fod bywyd rywsut wedi llithro allan o'n gafael.

Mae pobl ym mhobman yn chwilio am rywbeth - hyd yn oed os nad ydynt yn gallu rhoi enw arno. Ystyr. Perthyn. Y teimlad eu bod yn cyfrif. Ac eto, nid yw'r byd modern yn cynnig llawer o leoedd lle gall y chwilio hwnnw ddigwydd yn ddiogel, yn onest, a heb farn.

Dyma lle mae'r Stafell Fyw yn torri tir newydd.

Am bron i bymtheg mlynedd, mae'r Stafell Fyw wedi cynnig rhywbeth prin: man lle mae pobl yn ail-ddarganfod y bywyd mewnol y mae ymlyniadau i bob math o sylweddau ac ymddygiadau niweidiol, trawma a digalondid wedi'i wthio i'r cysgodion. Nid oes dim crefyddol nac athrawiaethol yn ein dealltwriaeth ni o ysbrydolrwydd. Mae'n ymwneud â chysylltiad. Mae'n ymwneud â'r gwirionedd syml ond chwyldroadol fod iachâu'n dechrau'r union eiliad nad yw person bellach ar ei ben ei hun.

Mae pobl yn camu drwy ein drysau gan gario cywilydd, ofn, a'r baich llethol o geisio dygymod â sialensiau bywyd ar eu pennau eu hunain. Yr hyn maen nhw'n ei ddarganfod yw cymuned sy'n eu croesawu gyda thynerwch, gonestrwydd a phrofiad byw - pobl sydd wedi teithio'r un tir o golled ac sydd wedi dod o hyd i ffordd adref. Yn bennaf, profant gariad diamod. A'r cariad hwnnw yw'r concwerwr mawr.

Mae trawsnewid yn digwydd yn dawel. Yn araf. Un sgwrs, un mewnwelediad, un foment o ddewrder ar y tro. Ond mae'n wir. Dro ar ôl tro rydyn ni'n gweld pobl yn deffro i'r posibilrwydd y gall eu bywyd fod yn wahanol; nad ydynt wedi'u condemnio i ailadrodd y patrymau a'u niweidiodd cymaint; fod gobaith - yn syndod - o fewn cyrraedd.

Ni ellir iacháu tlodi ysbrydol ein cenedl gan sefydliadau'n unig. Ni ellir ei ddatrys gan bapurau polisi na chyfarwyddiadau da eu bwriadau. Mae angen mannau lle gall bodau dynol ail-ddarganfod eu hunain. Mannau lle maen nhw'n dysgu ymddiried eto. Mannau lle maen nhw'n darganfod eu gwir werth.

Mae'r Stafell Fyw yn fan felly. Man lle mae'r daith o hunan-adnabyddiaeth yn dod yn gonglfaen adferiad. Man lle mae pobl yn adennill eu hurddas ac yn ailadeiladu bywydau a oedd unwaith yn teimlo'n anghyfannedd. Man lle mae'r antidot i dlodi ysbrydol yn cael ei fyw, ei rannu, a'i wneud yn real - trwy gysylltiad, tosturi, a dewrder distaw pob person sy'n dewis dechreuad newydd.

Dyma'r gwaith.

Dyma'r trawsnewid.

Dyma'r gobaith y mae ein gwlad yn chwilio amdano.

Wynford Ellis Owen

Prif Weithredwr y Cyngor a r Alcohol a Chyffuriau Eraill; ac Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol i'r Stafell Fyw, Cynnal a Lle I Fyw. *www.stafell-fyw.uk; www.cynnal.uk; www.cyngor-adferiad.org*

Ffôn: 07796464045 / 029 2063 0993. E-bost: wynford@recovery-council.org

Nadoligau a fu

Y Crusmas Trî a gôl y Baggies

Ifan Roberts

Dychmygwch noson o Ragfyr, un ddi-Fanweb - doedd dim trydan yn y pentref ar y pryd. Ninnau mewn llofft capel oedd uwchben generadur swnllyd ac ansefydlog oedd yn peswch ac achosi i'r golau ddiflannu'n llwyr ambell dro. Roedd y jeli coch a'r blymonj pinc wedi ei lowcio a phawb yn aros yn eiddgar am ymweliad Sion Corn. Ond, er mawr syndod a chywilydd i mi bellach, yr enw "Ffaddyr Crusmas" oedd gennym ni oll amdano yn y gornel wledig hon o Ynys Môn yr adeg honno! Ac ar lafar, yr enw lleol ar barti'r capel oedd y "Crusmas Trî", nid 'Parti Nadolig' na dim byd tebyg i hynny.

Heb ei sbectol, roedd yr hen lanc lleol oedd yn dirprwyo ar ran Santa ar y noson yn hynod fyr ei olwg, felly roedd arno angen rhywun i ddarllen y labeli ar yr anrhegion. Yn y swyddogaeth honno roedd yna un y byddai'n anodd i mi, yn 12 oed, beidio'i hadnabod - sef fy mam fy hunan, mewn gwisg Gymreig dan yr enw "Meri Crusmas"! Doedd bodolaeth darllenydd ar ran y "Ffaddyr" yn tarfu fawr ddim ar naws y noson i neb.

Yn dilyn dosbarthu anrhegion i'r aelodau iau o'r Ysgol Sul, gan gynnwys rhai oedd wedi ail-ymuno ar frys wrth i'r Nadolig nesáu, dyna 'Sion-Ffaddyr Crusmas-Corn' yn galw fy enw innau. Un parsel fflat oedd yn edrych fel llyfr! Ac o! Y fath gyfrol amhrisiadwy! Roedd y 'Charles Buchan Footbal Annual' yn drysor. Doeddwn i ddim yn ymwybodol ar y pryd fod gan yr awdur hefyd gylchgrawn misol. Ond wele ei albwm blynyddol – a hynny ym mlwyddyn buddugoliaeth fy arwyr, West Bromwich Albion, wedi iddyn nhw ennill cwpan FA Lloegr.

Y flwyddyn honno, ar sgrin deledu fach iawn, a llawn eira ar y signal, y cefais i weld y gêm gwpan honno ym Mliwmaras a bu fy nhad yn adrodd fel y gallai deimlo curiadau trwm fy nghalon cyn y gic o'r smotyn ddaeth â'r ddau dîm yn gyfartal. Ond welis i ddim mo'r olygfa hon nes agor y gyfrol.

Penalti ben arall y cae a Jim yn cofleidio'r postyn!

Ronnie Allen yn cicio o'r smotyn, ond gôl-geidwad y "Baggies", Jim Sanders, yn rhoi gair o weddi ben arall stadiwm Wembley. Hwn yw'r llun sy'n crynhoi'r gêm i mi – a hwn oedd yng nghyfrol Sion Corn a Charles Buchan y flwyddyn honno. Yr anrheg berffaith.

Ifan Roberts